Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

# GOFAL SYLFAENOL GWYRDDACH CYMRU

## FFRAMWAITH A CHYNLLUN GWOBRWYO 2024

### Pam ddylech chi gymryd rhan

- I ymuno ag eraill sy'n gweithredu ac i ddysgu gan eich cydweithwyr am yr hyn sy'n gweithio a pha mor hawdd yw gweithredu; **edrychwch ar ein Blwyddlyfr o Flwyddyn 2 i gael ysbrydoliaeth**
- I gael gwobr a gydnabyddir yn genedlaethol
- Cynllun a ddatblygwyd yn broffesiynol ac sydd yn ei drydedd flwyddyn
- Chi sy'n rheoli'r broses ac yn dewis y camau gweithredu yr hoffech weithio arnynt
- Mae'r camau gweithredu yn rhai clinigol ac anghlinigol, felly gall y tîm cyfan gymryd rhan
- Mae'r categorïau'n cwmpasu pob maes o'ch busnes a gallant helpu i wneud eich busnes yn fwy effeithlon, gan arbed arian mewn rhai achosion
- Mae'r cynllun wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae'n rhad ac am ddim!

## Amdanom Ni

Datblygwyd Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru gan Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n gasgliad o gamau gweithredu sy'n cynorthwyo fferyllfeydd cymunedol, practisau deintyddol cymunedol, optometryddion cymunedol a phractisau cyffredinol i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu hymarfer o ddydd i ddydd i gyrraedd Targed Sero Net Llywodraeth Cymru.
**Edrychwch ar yr animeiddiad byr hwn i gael gwybod mwy!**

## Cymryd Rhan

**Gallwch gofrestru ymlaen llaw yma** i ymuno â'n gweminar fyw ddydd Mercher 31 Ionawr 2024 pan fyddwn yn lansio **Blwyddyn 3** Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru.

**Cysylltwch â Ni**
Gofal Sylfaenol Gwyrddach
greenerprimarycare@wales.nhs.uk

Canolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol | Primary and Community Care Development and Innovation Hub